OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 433 (Cy.51)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi drwy Orchymyn drefniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith gyfreithiol i'r trefniadau asesu ar gyfer darllen a rhifedd disgyblion sy'n mynychu ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol (ac eithrio unrhyw un neu ragor a sefydlwyd mewn ysbyty) yng Nghymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 433 (W.51)

# EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 108 of the Education Act 2002 provides a power for the Welsh Ministers to prescribe by way of an Order assessment arrangements of the National Curriculum.

This Order gives legal effect to the assessment arrangements for reading and numeracy for pupils who attend schools maintained by a local authority (other than any established in a hospital) in Wales.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 433 (Cy.51)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Chwefror 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *28 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mai 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 108(2)(b)(iii), (3)(c), (5), (6), (7), (8), (10) ac (11) ac adran 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 ac mae'n dod i rym ar 1 Mai 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion a gynhelir (ac eithrio'r rhai a sefydlwyd mewn ysbytai) yng Nghymru.

### Dehongli

**2**.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "amserlen asesu'r PC" ("*the NT assessment timetable*") yw amserlen ar gyfer gweinyddu'r profion PC, sef, yn eu tro, profion ac amserlen a osodir mewn darpariaethau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 9";

ystyr "awdurdod monitro" ("*monitoring authority*") yw'r awdurdod lleol cynhaliol;

(**1**) 2002 p. 32.

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 433 (W.51)

# EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 February 2013* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *28 February 2013* |
| *Coming into force* | *1 May 2013* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by section 108(2)(b)(iii), (3)(c), (5), (6), (7), (8), (10) and (11) and section 210 of the Education Act 2002(**1**) and now vested in them(**2**) make the following Order:

### Title, commencement and application

**1**.—(1) The title of this Order is the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013 and it comes into force on 1 May 2013.

(2) This order applies to maintained schools (other than those established in hospitals) in Wales.

### Interpretation

**2**.—(1) In this Order—

"monitoring authority" ("*awdurdod monitro*") means the maintaining local authority;

"the NFER" ("*y SCYA*") means the National Foundation for Educational Research(**3**);

"the NNT" ("*y PRhC*") means the National Numeracy Test being a National Curriculum test

(**1**) 2002 c. 32.

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales under these sections was transferred to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) Company registration number 900899.

ystyr "blwyddyn 2" ("*year 2*") yw blwyddyn olaf y cyfnod sylfaen;

ystyr "blwyddyn 3" ("*year 3*") yw blwyddyn gyntaf yr ail gyfnod allweddol;

ystyr "blwyddyn 4" ("*year 4*") yw ail flwyddyn yr ail gyfnod allweddol;

ystyr "blwyddyn 5" ("*year 5*") yw trydedd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol;

ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw pedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol;

ystyr "blwyddyn 7" ("*year 7*") yw blwyddyn gyntaf y trydydd cyfnod allweddol;

ystyr "blwyddyn 8" ("*year 8*") yw ail flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol;

ystyr "blwyddyn 9" ("*year 9*") yw trydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol;

ystyr "canllawiau datgymhwyso'r PC" ("*the NT disapplication guidance*") yw canllawiau sy'n nodi'r disgyblion hynny nad oes angen rhoi'r PC iddynt;

ystyr "cynllun marcio'r PC" ("*the NT mark scheme*") yw'r cynllun marcio a ddyroddir i benaethiaid gyda'r PC;

ystyr "y ddogfen Gymraeg" ("*the Welsh document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2008 o'r enw "Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru(**1**)" a chyfeirir ati yng Ngorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008(**2**);

ystyr "llawlyfr gweinyddu'r PC" ("*the NT administration handbook*") yw llawlyfr sy'n rhoi manylion am drefniadau gweinyddol y PC a wneir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 9;

ystyr "y PC" ("*the NT*") yw'r Profion Cenedlaethol, sef y PDCCS, y PDCCC a'r PRhC;

ystyr "y PDCCC" ("*the NRTW*") yw'r Prawf Darllen Cenedlaethol Cyfrwng Cymraeg, sef prawf Cwricwlwm Cenedlaethol a roddir i ddisgyblion at y diben o asesu eu sgiliau darllen yn Gymraeg;

ystyr "y PDCCS" ("*the NRTE*") yw'r Prawf Darllen Cenedlaethol Cyfrwng Saesneg, sef prawf Cwricwlwm Cenedlaethol a roddir i ddisgyblion at y diben o asesu eu sgiliau darllen yn Saesneg;

ystyr "y PRhC" ("*the NNT*") yw'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol, sef prawf Cwricwlwm Cenedlaethol a roddir i ddisgyblion at y diben o asesu eu sgiliau rhifedd;

(**1**) Ar adeg argraffu'r Gorchymyn hwn, mae'r ddogfen Gymraeg wedi ei chyhoeddi ar www.cymru.gov.uk.

(**2**) O.S. 2008/1409 (Cy.146).

administered to pupils for the purpose of assessing their numeracy skills;

"the NRTE" ("*y PDCCS*") means the English-medium National Reading Test being a National Curriculum test administered to pupils for the purpose of assessing their reading skills in English;

"the NRTW" ("*y PDCCC*") means the Welsh-medium National Reading Test being a National Curriculum test administered to pupils for the purpose of assessing their reading skills in Welsh;

"the NT" ("*y PC*")means the National Tests being the NRTE, the NRTW and the NNT";

"the NT administration handbook" ("*llawlyfr gweinyddu'r PC*") means a handbook that details the administrative arrangements of the NT made by the Welsh Ministers under article 9";

"the NT assessment timetable" ("*amserlen asesu'r PC*") means a timetable for the administration of the NT tests, being respectively tests and a timetable laid down in provisions made by the Welsh Ministers under article 9";

"the NT disapplication guidance" ("*canllawiau datgymhwyso'r PC*") means guidance that sets out which pupils need not be administered the NT;

"the NT mark scheme" ("*cynllun marcio'r PC*")means the mark scheme issued to head teachers with the NT;

"the Welsh document" ("*y ddogfen Gymraeg*") means the document published by the Welsh Ministers in January 2008 entitled "Welsh in the National Curriculum for Wales(**1**)" and referred to in the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study) (Wales) Order 2008(**2**);

"Welsh programme of study" ("*rhaglen astudio Cymraeg*") means the programme of study referred to in that part of the Welsh document entitled "Welsh";

"Welsh second language programme of study" ("*rhaglen astudio Cymraeg ail iaith*") means the programme of study referred to in that part of the Welsh document entitled "Welsh second language";

"year 2" ("*blwyddyn 2*") means the final year of the foundation phase;

"year 3" ("*blwyddyn 3*") means the first year of the second key stage;

"year 4" ("*blwyddyn 4*") means the second year of the second key stage;

(**1**) At the time of printing of this Order, the Welsh document is published on www.wales.gov.uk.

(**2**) S.I. 2008/1409 (W.146).

ystyr "rhaglen astudio Cymraeg" ("*Welsh programme of study*") yw'r rhaglen astudio y cyfeirir ati yn y rhan honno o'r ddogfen Gymraeg o'r enw "Cymraeg";

ystyr "rhaglen astudio Cymraeg ail iaith" ("*Welsh second language programme of study*") yw'r rhaglen astudio y cyfeirir ati yn y rhan honno o'r ddogfen Gymraeg o'r enw "Cymraeg ail iaith";

ystyr "y SCYA" ("*the NFER*") yw'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg(**1**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at y cyfnod sylfaen i'w dehongli yn unol ag adran 102 o Ddeddf Addysg 2002.

(3) Mae unrhyw gyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at yr ail a'r trydydd cyfnodau allweddol i'w dehongli yn unol ag adran 103(1)(b) ac (c) o Ddeddf Addysg 2002.

**Y Prawf Darllen Cenedlaethol - Saesneg**

**3**.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae'r erthygl hon yn gymwys i—

(a) disgybl ym mlynyddoedd 4 i 9;

(b) disgybl ym mlwyddyn 3 sy'n dilyn rhaglen astudio Cymraeg ail iaith; ac

(c) disgybl ym mlwyddyn 2 pan fo mwyafrif gwersi'r disgybl hwnnw, ym marn y pennaeth, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg.

(2) Rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i'r PDCCS gael ei roi i bob disgybl—

(a) yn unol â darpariaethau'r ddogfen y cyhoeddir y PDCCS ynddi;

(b) yn unol â llawlyfr gweinyddu'r PC; ac

(c) yn ystod y cyfnod amser a bennir yn amserlen asesu'r PC.

(3) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny, rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau—

(a) i ymatebion y disgyblion i'r PDCCS gael eu marcio yn unol â chynllun marcio perthnasol y PC a ddarperir i'r pennaeth;

(b) i'r marciau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) gael eu darparu i Weinidogion Cymru yn unol ag amserlen asesu'r PC a llawlyfr gweinyddu'r PC.

(4) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i ddisgybl sydd, ym marn y pennaeth, yn dod o fewn un o'r categorïau a restrir yng nghanllawiau datgymhwyso'r PC.

"year 5" ("*blwyddyn 5*") means the third year of the second key stage;

"year 6" ("*blwyddyn 6*") means the fourth year of the second key stage;

"year 7" ("*blwyddyn 7*") means the first year of the third key stage;

"year 8" ("*blwyddyn 8*") means the second year of the third key stage;

"year 9" ("*blwyddyn 9*")means the third year of the third key stage.

(2) Any references in this Order to the foundation phase are to be interpreted in accordance with section 102 of the Education Act 2002.

(3) Any references in this Order to the second and third key stages are to be interpreted in accordance with section 103(1)(b) and (c) of the Education Act 2002.

**National Reading Test - English**

**3**.—(1) Subject to paragraph (4), this article applies to—

(a) a pupil in years 4 to 9;

(b) a pupil in year 3 who is following the Welsh second language programme of study; and

(c) a pupil in year 2 where, in the opinion of the head teacher, the majority of that pupil's lessons are taught through the medium of English.

(2) The head teacher must make arrangements for the NRTE to be administered to each pupil —

(a) in accordance with the provisions of the document in which the NRTE are published;

(b) in accordance with the NT administration handbook; and

(c) during the time period specified in the NT assessment timetable.

(3) As soon as reasonably practical thereafter, the head teacher must make arrangements—

(a) for the pupils responses to the NRTE to be marked in accordance with the relevant NT mark scheme provided to the head teacher;

(b) for the marks referred to in paragraph (a) to be provided to the Welsh Ministers in accordance with the NT assessment timetable and the NT administration handbook.

(4) This article does not apply to a pupil who, in the opinion of the head teacher, falls within one of the categories listed in the NT disapplication guidance.

(**1**) Rhif cofrestru'r cwmni 900899.

**Y Prawf Darllen Cenedlaethol - Cymraeg**

**4**.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae'r erthygl hon yn gymwys i—

(a) disgybl ym mlynyddoedd 3 i 9 sy'n dilyn y rhaglen astudio Cymraeg; a

(b) disgybl ym mlwyddyn 2 pan fo mwyafrif gwersi'r disgybl hwnnw, ym marn y pennaeth, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

(2) Rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i'r PDCCC gael ei roi i bob disgybl—

(a) yn unol â darpariaethau'r ddogfen y cyhoeddir y PDCCC ynddi;

(b) yn unol â llawlyfr gweinyddu'r PC; ac

(c) yn ystod y cyfnod amser a bennir yn amserlen asesu'r PC.

(3) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny, rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau—

(a) i ymatebion y disgyblion i'r PDCCC gael eu marcio yn unol â chynllun marcio perthnasol y PC a ddarperir i'r pennaeth;

(b) i'r marciau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) gael eu darparu i Weinidogion Cymru yn unol ag amserlen asesu'r PC a llawlyfr gweinyddu'r PC.

(4) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i ddisgybl sydd, ym marn y pennaeth, yn dod o fewn un o'r categorïau a restrir yng nghanllawiau datgymhwyso'r PC.

**Y Prawf Rhifedd Cenedlaethol**

**5**.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae'r erthygl hon yn gymwys i ddisgybl ym mlynyddoedd 2 i 9.

(2) Rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i'r PRhC gael ei roi i bob disgybl—

(a) yn unol â darpariaethau'r ddogfen y cyhoeddir y PRhC ynddi;

(b) yn unol â llawlyfr gweinyddu'r PC; ac

(c) yn ystod y cyfnod amser a bennir yn amserlen asesu'r PC.

(3) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny, rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau—

(a) i ymatebion y disgyblion i'r PRhC gael eu marcio yn unol â chynllun marcio perthnasol y PC a ddarperir i'r pennaeth;

(b) i'r marciau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) gael eu darparu i Weinidogion Cymru neu i'r SCYA yn unol ag amserlen asesu'r PC a llawlyfr gweinyddu'r PC.

**National Reading Test - Welsh**

**4**.—(1) Subject to paragraph (4), this article applies to—

(a) a pupil in years 3 to 9 who is following the Welsh programme of study; and

(b) a pupil in year 2 where, in the opinion of the head teacher, the majority of that pupil's lessons are taught through the medium of Welsh.

(2) The head teacher must make arrangements for the NRTW to be administered to each pupil —

(a) in accordance with the provisions of the document in which the NRTW are published;

(b) in accordance with the NT administration handbook; and

(c) during the time period specified in the NT assessment timetable.

(3) As soon as reasonably practical thereafter, the head teacher must make arrangements—

(a) for the pupils responses to the NRTW to be marked in accordance with the relevant NT mark scheme provided to the head teacher;

(b) for the marks referred to in paragraph (a) to be provided to the Welsh Ministers in accordance with the NT assessment timetable and the NT administration handbook.

(4) This article does not apply to a pupil who, in the opinion of the head teacher, falls within one of the categories listed in the NT disapplication guidance.

**National Numeracy Test**

5.—(1) Subject to paragraph (4), this article applies to a pupil in Years 2 to 9.

(2) The head teacher must make arrangements for the NNT to be administered to each pupil —

(a) in accordance with the provisions of the document in which the NNT are published;

(b) in accordance with the NT administration handbook; and

(c) during the time period specified in the NT assessment timetable.

(3) As soon as reasonably practical thereafter, the head teacher must make arrangements—

(a) for the pupils responses to the NNT to be marked in accordance with the relevant NT mark scheme provided to the head teacher;

(b) for the marks referred to in paragraph (a) to be provided to the Welsh Ministers or to the NFER in accordance with the NT assessment timetable and the NT administration handbook.

(4) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i ddisgybl sydd, ym marn y pennaeth, yn dod o fewn un o'r categorïau a restrir yng nghanllawiau datgymhwyso'r PC.

**Datganiad y pennaeth**

**6**. Rhaid i'r pennaeth, o fewn 7 niwrnod ysgol i'r dyddiad a nodir yn amserlen y PT ar gyfer darparu i Weinidogion Cymru neu i'r SCYA yr wybodaeth y cyfeirir ati yn erthyglau 3(3)(b), 4(3)(b) a 5(3)(b), ddarparu datganiad i'r swyddog monitro, wedi ei lofnodi gan y pennaeth, sy'n cadarnhau—

(a) i'r PC gael eu rhoi yn unol â darpariaethau'r ddogfen y cyhoeddir hwy ynddi;

(b) i'r PC gael eu rhoi yn ystod y cyfnod amser a bennir yn amserlen asesu'r PC;

(c) i'r PC gael eu rhoi yn unol â llawlyfr gweinyddu'r PC; a

(d) i ymatebion y disgyblion i'r PC gael eu marcio yn unol â chynllun marcio'r PC.

**Monitro'r trefniadau asesu**

**7**.—(1) Mae'r erthygl hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer monitro'r PC gan yr awdurdod monitro.

(2) Rhaid i'r awdurdod monitro, mewn unrhyw flwyddyn ysgol, arfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan yr erthygl hon mewn perthynas â 10% o'r holl ysgolion perthnasol.

(3) At ddibenion paragraffau (2) a (4), "ysgolion perthnasol" yw'r holl ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod monitro lle y caiff y PC eu rhoi i'r disgyblion mewn unrhyw flwyddyn ysgol yn unol â'r Gorchymyn hwn.

(4) Ym mhob blwyddyn ysgol, rhaid i'r awdurdod monitro ymweld â'r ysgolion perthnasol yn ystod unrhyw un neu ragor o'r cyfnodau a ganlyn—

(a) yr wythnos cyn y caiff y PC eu rhoi i'r disgyblion;

(b) y cyfnod pan fo'r PC yn cael eu rhoi i'r disgyblion; neu

(c) ugain niwrnod ysgol ar ôl y diwrnod olaf y caniateir i unrhyw un neu ragor o'r PC gael eu rhoi i'r disgyblion

a chaniateir cynnal ymweliad o'r fath yn ystod unrhyw un neu ragor o'r cyfnodau hyn mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r ysgolion hynny.

(5) Diben unrhyw ymweliad o'r fath yw galluogi'r awdurdod monitro i fonitro a yw'r trefniadau asesu at ddibenion rhoi'r PC yn unol ag—

(a) darpariaeth y ddogfen y cyhoeddir y PC hynny ynddi;

(4) This article does not apply to a pupil who, in the opinion of the head teacher, falls within one of the categories listed in the NT disapplication guidance.

**Head teacher's declaration**

**6**. The head teacher must, within 7 school days of the date set out in the NT timetable for the provision to the Welsh Ministers or to the NFER of the information referred to in articles 3 (3)(b), 4(3)(b) and 5(3)(b), provide to the monitoring officer a statement, signed by the head teacher, confirming that —

(a) the NT were administered in accordance with the provisions of the document in which they are published;

(b) the NT were administered during the time period specified in the NT assessment timetable;

(c) the NT were administered in accordance with the NT administration handbook; and

(d) that the pupils responses to the NT were marked in accordance with the NT mark scheme.

**Monitoring of assessment arrangements**

**7**.—(1) This article makes provision for the monitoring of the NT by the monitoring authority.

(2) In any school year the monitoring authority must exercise the functions conferred on them by this article in relation to 10% of all relevant schools.

(3) For the purposes of paragraphs (2) and (4), "relevant schools" are all the schools maintained by the monitoring authority at which in any school year NT are administered to pupils in accordance with this Order.

(4) In each school year, the monitoring authority must visit the relevant schools during any of the following periods—

(a) the week before the NT are administered to pupils;

(b) the period during which the NT are administered to pupils; or

(c) twenty school days after the last day on which any of the NT may be administered to pupils

and such a visit may be during any of these periods in respect of any of those schools.

(5) The purpose of any such visit is to enable the monitoring authority to monitor whether the assessment arrangements for the purposes of administering the NT are in accordance with—

(a) the provision of the document in which those NT are published;

(b) amserlen asesu berthnasol y PC;

(c) llawlyfr gweinyddu perthnasol y PC;

(d) yn achos ymweliad o dan baragraff (4)(b) neu (c), a yw ymatebion ysgrifenedig y disgyblion i'r PC yn cynrychioli eu gwaith eu hunain; ac

(e) yn achos ymweliad o dan baragraff (4)(c) a yw ymatebion y disgyblion i'r PC wedi eu marcio yn unol â chynllun marcio perthnasol y PC.

(6) Yn dilyn unrhyw ymweliad o'r fath bydd yr awdurdod monitro yn trafod canlyniad yr ymweliad â'r pennaeth.

(7) Lle yr ymddengys i'r awdurdod monitro, o ganlyniad i ymweliad, nad yw unrhyw un neu ragor o'r trefniadau asesu mewn cysylltiad â rhoi'r PC o dan y Gorchymyn hwn yn unol â'r ddogfen y cyhoeddwyd y PC hynny ynddi neu amserlen asesu berthnasol y PC neu lawlyfr gweinyddu'r PC neu nad yw ymateb ysgrifenedig unrhyw ddisgybl i'r PC yn cynrychioli gwaith y disgybl hwnnw, bydd—

(a) yn dwyn y mater i sylw'r pennaeth; a

(b) yn adrodd ar y mater i Weinidogion Cymru.

(8) Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu —

(a) caniatáu i'r awdurdod monitro fynd i mewn i fangre'r ysgol ar bob adeg resymol er mwyn iddo arsylwi ar y dull o weithredu'r PC o dan y Gorchymyn hwn;

(b) caniatáu i'r awdurdod monitro arolygu a chymryd copïau o ddogfennau ac erthyglau eraill mewn perthynas â'r asesiad PC hwnnw; ac

(c) darparu i'r awdurdod monitro unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag asesiad o'r fath ag y caiff ofyn amdani yn rhesymol.

(9) At ddibenion arfer ei swyddogaethau o dan yr erthygl hon, bydd yr awdurdod monitro yn penodi person cymwys o'r fath fel y gwêl yn dda.

**Ymchwiliad gan Weinidogion Cymru a chywiro'r cofnod o ganlyniadau**

**8**.—(1) Bydd Gweinidogion Cymru yn ymchwilio i unrhyw fater a atgyfeirir atynt o dan erthygl 7 neu y tynnir eu sylw ato fel arall sydd, yn eu barn hwy, yn ymwneud â manylrwydd neu gywirdeb unrhyw ganlyniadau unrhyw ddisgybl mewn cysylltiad â'r PC a roddir o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru, yn dilyn ymchwiliad, yn penderfynu bod amheuaeth ynghylch canlyniadau'r disgybl mewn cysylltiad â'r PC a roddir o dan y Gorchymyn hwn, neu nad ydynt yn fanwl gywir neu fel arall yn anghywir, mae'r cofnod o'r canlyniadau ar gyfer y disgybl hwnnw i fod y cofnod o'r canlyniadau a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

(b) the relevant NT assessment timetable;

(c) the relevant NT administration handbook;

(d) in the case of a visit under paragraph (4)(b) or (c), whether the pupils' written responses to the NT represent their own work; and

(e) in the case of a visit under paragraph (4)(c) whether the pupils responses to the NT have been marked in accordance with the relevant NT mark scheme.

(6) Following any such visit the monitoring authority will discuss the outcome of the visit with the head teacher.

(7) Where, as a result of a visit, it appears to the monitoring authority that any of the assessment arrangements in connection with administering the NT under this Order are not in accordance with the document in which those NT were published or the relevant NT assessment timetable or NT administration handbook or that any pupil's written response to the NT does not represent that pupil's own work, they will—

(a) bring the matter to the attention of the head teacher; and

(b) report the matter to the Welsh Ministers.

(8) The head teacher and the governing body must—

(a) permit the monitoring authority to enter the premises of the school at all reasonable times so that they may observe the implementation of the NT under this Order;

(b) permit the monitoring authority to inspect and take copies of documents and other articles relation to that NT assessment; and

(c) provide the monitoring authority such information relating to such assessment as they may reasonably request.

(9) For the purposes of exercising their functions under this article, the monitoring authority will appoint such competent person as they see fit.

**Investigation by Welsh Ministers and correction of record of results**

**8**.—(1) The Welsh Ministers will investigate any matter referred to them under article 7 or otherwise brought to their attention which, in their opinion, relates to the accuracy or correctness of any results of any pupils in respect of the NT tests administered under this Order.

(2) Where, following an investigation, the Welsh Ministers determine that the pupil's results in respect of the NT administered under this Order are in doubt, inaccurate or otherwise incorrect, the record of the results for that pupil is to be the record of the results determined by the Welsh Ministers.

**Pwerau atodol Gweinidogion Cymru**

**9**.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau hynny y mae'n ymddangos yn hwylus iddynt eu gwneud ac sy'n rhoi effaith lawn i'r darpariaethau a wneir gan y Gorchymyn hwn neu yn ychwanegu atynt fel arall, gan gynnwys yn benodol—

(a) y darpariaethau o ran y PC at y diben a grybwyllir yn y diffiniad o brofion o'r fath yn erthygl 2(1); a

(b) y darpariaethau o ran yr amser y caiff y PC eu rhoi a'r dull ar gyfer gwneud hynny.

(2) Mae unrhyw ddarpariaethau a wneir o dan yr erthygl hon i'w cyhoeddi gan Weinidogion Cymru.

**Supplementary powers of Welsh Ministers**

**9**.—(1) The Welsh Ministers may make such provisions giving full effect to or otherwise supplementing the provisions made by this Order as appear to them to be expedient, including in particular—

(a) provisions as to the NT for the purpose mentioned in the definition of such tests in article 2(1); and

(b) provisions as to the time when and the manner in which NT are to be administered.

(2) Any provisions made under this article are to be published by the Welsh Ministers.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

27 Chwefror 2013

Minister for Education and Skill, one of the Welsh Ministers

27 February 2013

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£5.75

W1527/03/13 ON